

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon

Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor
Ffordd Gwynedd
BANGOR. LL57 1DT



Gofynnwch am: Nia Haf Davies
☎(01286) 679890
✉ niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf :
Eich Cyf:

Mr Hywel Jones
Arolygydd
Dan ofal: Swyddog Rhaglen yr Archwiliad

Dyddiad: 8 Mai 2017

Annwyl Syr

Yng: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - cofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi terfynol

Atodaf ddogfennau sy'n cynnwys cofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi i Ddatganiad Ysgrifenedig a Mapiau Cynigion y Cynllun. Mae'r gofrestr yn rhoi un pwynt cyswllt ar gyfer y Newidiadau Materion sy'n Codi terfynol mae'r Cynghorau yn gynnig mewn ymateb i drafodaethau yn y gwahanol Sesiynau Gwrandawiaid'r Archwiliad ac ymatebion gwahanol i ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r gofrestr sydd yn y dogfennau atodol felly'n cael ei gyflwyno i chi ystyried ochr yn ochr â'r Cynllun a gafodd ei gyflwyno. Mae'r dogfennau atodol yn disodli'r dogfennau Newidiadau Materion sy'n Codi (a fuodd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Ionawr i fis Mawrth 2017 (DA.039 a DA.040), a'r newidiadau ychwanegol posib yn yr adroddiad am "Farn y Cynghorau ynglŷn â sylwadau am Newidiadau Materion sy'n Codi" a gafodd ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2017 (DA.045).

Mae'r testun cychwynol i'r gofrestr yn egluro bod y Newidiadau sydd yn y gofrestr derfynol mewn rhai amgylchiadau yn cynnwys diwygiadau i'r Newidiadau a chafodd eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2017 a chanlyniadau trafodaethau a gafwyd yn y sesiynau Gwrandawiad ar 26ain a 27ain Ebrill 2017. Mae'r diwygiadau ychwanegol cyfyngedig yn cael eu cynnig er budd cadernid y Cynllun ac i wella eglurder a manylder. Mae'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn nhrefn y Cynllun a gafodd ei gyflwyno. Mae'r dull rhifo Newidiadau yn aros 'run fath â'r dull ar gyfer y Newidiadau Materion sy'n Codi Ionawr 2017.

Ar sail bod y Newidiadau Materion sy'n Codi sydd yn y dogfennau atodol wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus neu drafodaeth yn ystod sesiynau Gwrandawiad ar 26ain a 27ain Ebrill 2017, mae'r Cynghorau yn hyderus bod pawb sy'n cael eu heffeithio wedi cael cyfle i wneud sylwadau cyn rhoi'r gofrestr derfynol o Newidiadau at ei gilydd. Mae'r Cynghorau felly yn fodlon nad oes angen ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol. Credir bod y broses yn un grymus ac wedi bodloni'r gofynion gweithdrefnol.

Mae'r Cynghorau hefyd yn cadarnhau eu bod wedi ailasesu Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun o ran y Newidiadau Materion sy'n Codi a chafodd eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus Ionawr - Mawrth 2017 (Adroddiad Adendwm - DA.041) ac yn ystod Mawrth 2017 (Atodiad 1 o DA.045). Ni chredir bod unrhyw un o'r Newidiadau yn cael effaith arwyddocaol ar faterion cynaliadwyedd. Ar sail bod y gofrestr derfynol o Newidiadau sy'n cael ei gyflwyno efo'r llythyr yma yn cynnwys y Newidiadau a gyfeiriwyd atynt yn flaenorol a newidiadau bychain sy'n ymwneud â diweddariadau ffeithiol neu newidiadau bychain i destun polisi neu eglurhad er mwyn

rhoi eglurder pellach, mae'r Cynghorau yn fodlon nad yw'r Newidiadau a gyflwynir i chi gyda'r llythyr yma yn cael effaith arwyddocaol ar faterion cynaliadwyedd.

Yn unol â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd cafodd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ei wneud o'r Cynllun a'i adolygu fel bo angen yn sgil newidiadau a chafodd eu cyflwyno yn ystod yr Archwiliad. Cafodd y casgliadau eu cofnodi mewn adendwm i'r adroddiad ARhC gwreiddiol (DA.042) ac yn Atodiad 1 l'r adroddiad oedd yn cyflwyno barn am y sylwadau ynglŷn â Newidiadau Materion sy'n Codi (DA.045). Fe wnaeth yr adroddiadau yma ddod i gasgliad na fyddai'r Cynllun, fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau arfaethedig, yn cael effaith arwyddocaol ar ben ei hun neu ar y cyd ar safleoedd Ewropeaidd. Ar sail bod y gofrestr derfynol o Newidiadau yn cynnwys y Newidiadau a gyfeiriwyd atynt yn flaenorol a newidiadau bychain sy'n ymwneud â diweddariadau ffeithiol neu newidiadau bychain i destun polisi neu eglurhad er mwyn rhoi eglurder pellach, mae'r Cynghorau yn fodlon nad yw'r Newidiadau a chyflwynir i chi gyda'r llythyr yma yn cael effaith arwyddocaol ar ben eu hunain neu ar y cyd ar safleoedd Ewropeaidd.

Gobeithio bod yr uchod yn egluro safbwynt y Cynghorau ynglŷn â'r Newidiadau maent yn dymuno i chi ystyried cyn cwblhau eich adroddiad. Os hoffech eglurhad o unrhyw agwedd o'r llythyr yma neu'r gofrestr derfynol o Newidiadau Materion sy'n Codi, mae croeso i chi gysylltu gyda mi trwy'r Swyddog Rhaglen.

Yn gywir

Nia Haf Davies
Rheolwr Cynllunio (Polisi)